Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Geir-IAU

Cystadleuaeth i blant a phobl ifanc 7-10 oed i ohebu ar eu newyddion eu hunain

Enillwch iPad newydd cyffrous!!

Un o nodau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw sicrhau bod papurau newydd, y teledu a'r radio yn dangos y pethau da y mae plant a phobl ifanc yn eu gwneud, a'ch portreadu chi'n deg.

Mae **Geir-IAU** yn gystadleuaeth i unigolion a grwpiau sy'n gadael ichi droi'n 'newyddiadurwr' gan lunio adroddiad am rywbeth sy'n ymwneud â **phlant, pobl ifanc yn eu harddegau neu oedolion ifanc yn eich ysgol neu'ch ardal.**

Gallai unigolion a grwpiau anfon y canlynol:

- hysbysiad i'r wasg ynghylch digwyddiad neu weithgaredd yn eich ardal
- pennawd ac adroddiad newyddion am weithgareddau lleol, fel y byddai'n ymddangos mewn papur newydd
- erthygl nodwedd o hyd at 400 o eiriau
- ffotograff newyddion a chapsiwn
- cartŵn
- adroddiad chwaraeon
- adolygiad cerddoriaeth neu gelf
- llythyr at y golygydd yn codi mater sydd o bwys i blant a phobl ifanc
- cyfweliad sain neu fideo neu adroddiad i'r we

Byddwn yn rhoi'r rhai gorau mewn papur newydd arbennig **Geir-IAU** ar ein gwefan.

Beth sy'n gwneud newyddion?

Oes yna bethau diddorol rydych chi, eich ffrindiau neu bobl eraill yn eu gwneud ac y dylai pobl wybod amdanyn nhw: pethau fel chwaraeon, cerddoriaeth, y celfyddydau, helpu eraill neu godi arian? Beth am greu adroddiad am y rhain?

Efallai fod rhywun rydych chi'n ei nabod yn ceisio atal bwlio, fandaliaeth, cyffuriau neu annhegwch. Gallai hynny fod yn stori wych.

Ydych chi'n teimlo bod plant a phobl ifanc yn cael bai ar gam am bethau? Ysgrifennwch adroddiad ar hynny.

Ydy'r newyddion yn cael eu hadrodd o safbwynt oedolion yn unig? Allech chi ddangos y newyddion drwy lygaid plant a phobl ifanc?

Oes yna bethau yr hoffech eu dechrau, eu stopio neu eu newid? Ysgrifennwch 'lythyr at y golygydd' am hynny.

Gallech chi hyd yn oed ysgrifennu neu recordio/ffilmio cyfweliad â rhywun sydd â rhywbeth difyr i'w ddweud wrth blant a phobl ifanc.

Byddwn ni'n helpu

Os hoffech chi ymgeisio a bod yn ohebydd i **Geir-IAU**, cewch help gennyn ni. Ewch i **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk** ac fe ddangoswn ni sut i ddod o hyd i'r newyddion a'u hysgrifennu. Mae rheolau'r gystadleuaeth ar gael yno hefyd.

Mae'r gystadleuaeth yn cael ei hariannu'n rhannol gan Cyrraedd y Nod, sef set o brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) o dan arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

ESF

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cymry Ifanc
Young Wales

www.cymru.gov.uk

Y gwobrau y gallech eu hennill

Os chi yw'r gorau yn eich oed chi yn un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, byddwch yn ennill **pecyn cyfryngau arbennig Geir-IAU**. Mae'r pecyn yn cynnwys camera fideo fflip, recordydd a meicroffon gohebydd radio, llyfr nodiadau gohebydd a chanllaw hawdd ar adroddiadau newyddion.

Os cewch chi'ch dewis fel y gorau yn eich oed chi yng Nghymru, byddwch yn ennill **iPad cyffrous newydd i'ch ysgol**. Byddwch chi a'ch cyd-ddisgyblion yn gallu gweld y newyddion a'r rhyngrwyd yn hawdd. Byddwch chi hefyd yn treulio diwrnod gyda golygydd newyddion go iawn, gan weld sut mae'n dethol y newyddion ac yn penderfynu sut i adrodd ar y storïau mawr.

Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno mewn dathliad arbennig gan **Geir-IAU** yn y Senedd ym mis Tachwedd 2010.

Mae'n beirniaid yn chwilio am gynigion:

- sy'n dangos plant a phobl ifanc mewn modd cadarnhaol
- sy'n edrych yn dda ac sydd â neges glir
- sy'n ddigon diddorol i gael eu cyhoeddi ym mhapur newydd **Geir-IAU** neu ar ein gwefan
- sy'n rhoi gwybod i bobl am yr CCUHP

Y dyddiad cau

8 Hydref 2010 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio. Ond peidiwch ag oedi. Beth am fynd ati gyda'ch cynnig chi yn syth neu yn ystod gwyliau'r haf?

Anfonwch eich cynnig gyda'r ffurflen bwrpasol i **Geir-IAU** d/o Working Word PR, Llawr 9, Tŷ Southgate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW. Neu, sganiwch eich cynnig a'i anfon drwy'r e-bost at **u-news@cazbah.biz**

Ffurflen ymgeisio: Geir-IAU

Enw'r disgybl/cynrychiolydd y grŵp sy'n ymgeisio

_____

Dyddiad geni

_____

Enw a chyfeiriad yr ysgol

_____

_____

Enw'r athro/athrawes i gysylltu â nhw

_____

Rhif ffôn yr athro/athrawes

_____

Cyfeiriad e-bost yr athro/athrawes

_____

Disgrifiad o'r cynnig (dileer fel y bo'n briodol) hysbysiad i'r wasg, stori papur newydd, ffoto, adroddiad chwaraeon, adolygiad cerddoriaeth, cyfweliad ysgrifenedig, llythyr at y golygydd, cartŵn neu gyfweliad wedi'i recordio.

Rwyf wedi darllen ac wedi deall rheolau'r gystadleuaeth (ticiwch y blwch) ☐

Llofnod yr athro/athrawes

_____

Printiwch eich enw

_____

I weld rheolau'r gystadleuaeth ewch i:
http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk